



Canllawiau: Protocol ar gyfer Archwiliadau Tir gan y Tribiwnlys

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg. Cysylltwch â'r tribiwnlys am fersiwn Saesneg o'r ddogfen hon.

1. Gall y Tribiwnlys¹ ymweld â thir sy'n eiddo i ac yn cael ei feddiannu gan unrhyw barti neu dir sy'n berthnasol i achos (waeth ai'r tir hwnnw yw testun y cais ai peidio) i archwilio'r adeiladau, y tir ac unrhyw dda byw, cyfarpar a chynnyrch, cyn belled â bod Ysgrifennydd y Tribiwnlys wedi rhoi o leiaf 24 awr o rybudd (neu 7 diwrnod mewn achosion draenio tir) i bob parti (ac unrhyw un o feddianwyr eraill y daliad) neu ar lafar yn y gwrandawriad. Bydd yn defnyddio'r hawl hwn gan amlaf.
2. Gall y partïon a/neu eu cynrychiolwyr a thystion arbenigol (ac unrhyw un o feddianwyr eraill y daliad) fod yn bresennol adeg yr archwiliad oni bai bod y Cadeirydd neu'r Tribiwnlys yn nodi fel arall.
3. Diben archwilio daliad yw galluogi aelodau'r Tribiwnlys i weld drostynt eu hunain y materion 'ar lawr gwlad' sydd yn neu a allai fod yn berthnasol i'r materion y mae'n rhaid i'r Tribiwnlys benderfynu arnynt. Er y gall y partïon dynnu sylw at nodweddion perthnasol yn ystod yr archwiliad, ni fyddai'n briodol iddynt gyflwyno tystiolaeth lafar na gwneud sylwadau ar yr adeg hon. Dylai'r Cadeirydd atgoffa'r partïon, eu cynrychiolwyr ac arbenigwyr o hyn. Os bydd partïon am ddibynnu ar unrhyw fater sy'n codi yn ystod archwiliad, rhaid cyflwyno tystiolaeth ffurfiol o'r mater hwnnw yn ôl yn y gwrandawriad. Mae'n hanfodol nad yw'r Tribiwnlys yn cael ei roi mewn sefyllfa (hyd yn oed yn anfwriadol) lle mae'n rhaid iddo benderfynu ar fater ar sail tystiolaeth nad yw'r naill barti neu'r llall wedi cael cyfle i fynd i'r afael ag ef.
4. Mae archwiliad yn rhan o'r gwrandawriad ac, fel y cyfryw, y Cadeirydd neu'r Tribiwnlys fydd yn penderfynu ar y weithdrefn i'w dilyn. Mae'n hanfodol bod y weithdrefn yn deg ac yn cael ei hystyried felly. Yn gyffredinol:
 - (1) Os bydd aelod o'r Tribiwnlys o'r farn bod nodwedd mae'n ei gweld neu fater a godir ganddo neu gydag ef yn ystod yr archwiliad yn arwyddocaol neu gallai fod felly, dylai sicrhau bod y nodwedd yn cael ei dwyn i sylw aelodau eraill y Tribiwnlys a'r partïon neu eu cynrychiolwyr (neu, os yw'n briodol, eu tystion arbenigol).

¹ Gorchymyn Tribiwnlysoedd Tir Amaethyddol (Rheolau) 2007, Rheol 25, a'r Ddeddf Draenio Tir, Adran 31

- (2) Dylai unrhyw gwestiynau ar gyfer y partïon neu'r tystion gael eu cyflwyno i'r Cadeirydd, a fydd penderfynu pa gwestiynau y dylid eu gofyn ar yr adeg honno a pha gwestiynau y dylid eu cadw i'w gofyn ar ôl dychwelyd i'r gwrandawriad.
 - (3) Dim ond ym mhresenoldeb pob parti a/neu'i gynrychiolwyr (ac, os yw'n briodol, ei dystion arbenigol) y dylid gofyn cwestiynau.
5. Mae'n briodol i aelodau'r Tribiwnlys drafod yr hyn a welant ymhlith ei gilydd yn ystod ymweliad, ond nid yw'n briodol i aelodau'r Tribiwnlys wneud sylwadau neu ofyn cwestiynau sy'n awgrymu neu a fyddai'n achosi i'r partïon gredu eu bod eisoes wedi dod i gasgliad ynglŷn â'r achos neu unrhyw fater perthnasol.
 6. Caniateir i aelodau wneud nodiadau o'r hyn y maent wedi'i weld ac unrhyw sylwadau neu gwestiynau sydd ganddynt at ddiben eu trafod ymhlith ei gilydd yn breifat ar ôl yr ymweliad.
 7. Os bydd unrhyw beth anffodus yn digwydd yn ystod ymweliad (er enghraifft, os bydd parti neu dyst yn gwneud honiad a allai fod yn rhagfarnllyd i aelod o'r Tribiwnlys), dylid adrodd y mater hwn wrth y Cadeirydd, a fydd yn penderfynu sut i fynd i'r afael ag ef, boed hynny ar y pryd neu yn ôl yn y gwrandawriad.
8. **Bioggiogelwch:**
 - (a) Rhaid i bawb sy'n rhan o'r ymweliad safle sicrhau bod eu ceir a'u hesgidiau (ac unrhyw oferôls neu ddillad tebyg) yn lân ac nad ydynt yn cynnwys unrhyw ddeunydd organig o'u ffermydd eu hunain neu ffermydd eraill.
 - (b) Bydd Ysgrifennydd y Tribiwnlys yn dod â brwsh, powlen a diheintydd gydag ef, a gofynnir i holl aelodau'r Tribiwnlys ac ymwelwyr eu defnyddio i ddiheintio eu hesgidiau.
 - (c) Os oes gan y fferm ei mesurau bioggiogelwch ei hun (megis lle golchi car neu esgidiau wrth gât y fferm), dylai aelodau'r Tribiwnlys ac ymwelwyr eraill sicrhau eu bod yn cydymffurfio â nhw.

9. **Dewis iaith**

Mae'r tribiwnlys yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg neu yn Saesneg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi. Mae'r tribiwnlys hefyd yn croesawu galwadau ffôn yn Gymraeg neu'n Saesneg.

Gallwch chi gyflwyno ffurflenni, dogfennau a chyflwyno sylwadau ysgrifenedig i'r tribiwnlys yn Gymraeg neu'n Saesneg.